Ymatebion i'r ymgynghoriad: Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwaith Chwarae

Tachwedd 2016

Ymgynghoriad ar y dull i'w ddefnyddio i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwaith Chwarae: Adroddiad cryno ar y canfyddiadau

Ar 1 Medi 2016, lansiodd Cymwysterau Cymru ymgynghoriad ar y gwaith o ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau ar gyfer y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ceir rhagor o wybodaeth am y cynigion yn y ddogfen ymgynghori ar wefan Cymwysterau Cymru yma. Anogwyd ymatebwyr i gwblhau arolwg ar-lein cyn i'r broses ymgynghori ddod i ben ar 5 Hydref 2016.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn defnyddio'r canllaw canlynol i roi syniad o'r nifer a ymatebodd:

Nifer fawr iawn	Mwy na 90%
Nifer fawr	Mwy na 70%
Mwyafrif	Mwy na 60%
Tua hanner	Rhwng 40 a 60%
Lleiafrif	Llai na 40%
Nifer fach	Llai nag 20%
Nifer fach iawn	Llai na 10%

Nod y dangosyddion hyn yw rhoi syniad o lefel gymharol yr ymateb sy'n gysylltiedig â phob un o'r sylwadau. Cafodd pob sylw ei ystyried gan Cymwysterau Cymru wrth wneud penderfyniadau ynghylch yr ymgynghoriad.

Derbyniodd Cymwysterau Cymru 150 o ymatebion i'r arolwg ar-lein. O'r rheini, roedd 75 yn ymatebion cyflawn a 75 yn ymatebion rhannol. Derbyniwyd deg ymateb arall mewn fformat amgen. Nododd un o'r ymatebion fod y sefydliad yn arddel safbwynt niwtral mewn perthynas â'r penderfyniad i gyfyngu ar rai cymwysterau yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a nododd un arall nad oedd ganddo ymateb penodol i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd naw ymateb gan gyrff dyfarnu neu gwmnïau cyswllt a 12 ymateb gan gyrff y sector. Derbyniwyd deg ymateb ar ran darparwyr dysgu ac 11 ymateb gan sefydliadau sy'n cyflogi pobl naill ai yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu'r maes Gofal Plant/Gwaith Chwarae. Derbyniwyd pum ymateb gan randdeiliaid eraill. Ceir rhestr o'r holl sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad 1.

A ydych yn cytuno, o'r opsiynau rydym wedi'u nodi i gyflawni deilliannau'r adolygiad, mai'r mwyaf effeithiol o ran cyflawni'r deilliannau hynny yw opsiwn 3 (gosod cyfyngiad ar rai cymwysterau yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru)?
Derbyniwyd 155 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Ydw

Nododd ychydig dros draean o'r ymatebwyr eu bod yn cefnogi'r cynnig i gyfyngu ar rai cymwysterau yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd lleiafrif o gyflogwyr, nifer fach o ddarparwyr dysgu a nifer fach o gyrff y sector a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno'n ddiamod â'r cynnig i gyfyngu ar rai cymwysterau.

Manteisiodd 30 o ymatebwyr ar y cyfle i nodi eu prif resymau dros gytuno â'r cynnig i gyfyngu ar rai cymwysterau yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

1. Nododd tua hanner yr ymatebwyr hyn fod angen llwyfan cyffredin yn y sector i wella cysondeb a'r broses safoni. Aeth nifer fach o ymatebwyr ymlaen i ddweud y byddai hyn yn rhoi mwy o bwysau a gwerth i'r sector, yn gwella ansawdd a safonau gofal, yn sicrhau bod y cymhwyster yn addas at y diben ac yn rhoi mwy o hyder wrth gymharu perfformiad dysgwyr.
2. Roedd nifer fach yn teimlo y byddai hyn yn arwain at lai o ddryswch i ddysgwyr a chyflogwyr a fyddai'n gallu llywio'u ffordd drwy'r sector yn haws.
3. Nododd nifer fach iawn y byddai hyn yn gyfle i ddatblygu llwybrau dilyniant clir ac effeithiol a phrosesau asesu cadarn ac arloesol.
4. Nododd nifer fach iawn y gallai prosesau sicrhau ansawdd cliriach a chadarnach gael eu datblygu.
5. Nododd nifer fach iawn y gallai arwain at system ddyfarnu fwy tryloyw.
6. Nododd nifer fach iawn y byddai symleiddio'r strwythur cymwysterau yn osgoi cystadleuaeth ddibwys.
7. Nododd nifer fach iawn y byddai'r opsiwn i gyfyngu yn gyfle i ddatblygu cyfres o gymwysterau a fyddai'n cefnogi gweledigaeth ac uchelgeisiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Er iddynt nodi eu bod yn cytuno'n ddiamod ag opsiwn 3, roedd gan nifer fach iawn o ymatebwyr rai pryderon, gan gynnwys y canlynol:

1. Amseru'r cymwysterau newydd yn sgil y ffaith bod Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn effeithio ar nifer y bobl y mae angen cymwysterau arnynt.
2. Efallai na fydd rhannu'r gwaith o ddatblygu cynnwys ar y naill law ac yna gyfyngu ar y cymhwyster ar y llaw arall yn gwarantu deilliant effeithiol.
3. Yr effaith fonopoleiddio bosibl a'r ffaith y byddai hyn yn arwain at lai o gystadleuaeth.
4. Angen sicrhau bod ymwybyddiaeth gryfach o'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y farchnad gymwysterau.

Ydw, ond gydag amheuon

Nododd tua hanner yr ymatebwyr, er eu bod yn cytuno â'r cynnig i gyfyngu ar rai cymwysterau yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, fod ganddynt rai amheuon. Nododd tua hanner y cyflogwyr, darparwyr dysgu a chyrff y sector eu bod yn cefnogi'r cynnig ond bod ganddynt amheuon hefyd.

Manteisiodd 43 o ymatebwyr ar y cyfle i nodi eu prif amheuon ynghylch opsiwn 3.

1. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn pryderu y byddai cyfyngu ar nifer y cyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn yn cyfyngu hefyd ar y dewis sydd ar gael i ddarparwyr a dysgwyr, gan y byddai'n golygu mai dim ond un corff dyfarnu a fyddai'n gallu cynnig cymhwyster. Os nad yw'r cymwysterau yn addas at y diben neu'n diwallu anghenion dysgwr penodol, yna gallai'r dysgwr hwnnw fod o dan anfantais. Mae'n bwysig bod y cymhwyster, gan gynnwys y fethodoleg asesu, yn addas i bob dysgwr ac y gellir ei addysgu mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach a lleoliadau dysgu seiliedig ar waith. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr hefyd yn pryderu y byddai canolfannau yn cael eu gorfodi i weithio gyda chorff dyfarnu ac y gallai hynny arwain at gostau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda chorff dyfarnu newydd neu sawl corff dyfarnu gwahanol.
2. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn pryderu ynghylch symudedd y cymwysterau arfaethedig yn Lloegr, yr Alban, Iwerddon a'r UE. Nodwyd amheuon penodol ynghylch y gallu i fynd ymlaen i astudio mewn Prifysgol y tu allan i Gymru.
3. Nododd ymatebwyr o'r sector Gwaith Chwarae fod Gwaith Chwarae yn ddisgyblaeth benodol iawn a gaiff ei diystyru'n aml pan ellir dadlau, i bob pwrpas, mai dyma yw sylfaen pob gweithgarwch dysgu. Roeddent yn cefnogi'r cynnig i sicrhau bod cynnwys yn ymwneud â chwarae yn rhan o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth graidd ar gyfer cymhwyster Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ond roeddent yn pryderu y byddai colli'r llwybr Gwaith Chwarae pwrpasol yn anghydnaws â'r cyfeiriad strategol cyfredol o ddatblygu cymwysterau sy'n diwallu anghenion gweithlu tymhorol, rhan amser yn bennaf, ac y gallai'r buddsoddiad diweddar yn y gwaith o ddatblygu cymwysterau pwrpasol gael ei wastraffu. Mae'n rhaid i'r sector chwarae fod yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu unrhyw gymhwyster newydd ac mae'n rhaid i'r cyfryw gymhwyster fod yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a adolygwyd yn ddiweddar, sy'n adlewyrchu egwyddorion Gwaith Chwarae.
4. Cododd nifer fach o ymatebwyr bryderon ynghylch aflonyddwch posibl yn ystod y cyfnod pontio a'r risg sy'n gysylltiedig â newid mawr.
5. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu ynghylch yr angen i roi cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a phrosesau sicrhau ansawdd cadarn ar

waith ar gyfer hyfforddwyr ac aseswyr, yr angen i'r corff dyfarnu allu darparu adnoddau dwyieithog a hyfywedd cymwysterau arbenigol nad ydynt yn cael eu hariannu gan arian cyhoeddus ar hyn o bryd.

6. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu ynghylch y risg y gallai'r farchnad fethu; os na all y corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen ar ddysgwyr a darparwyr yna ni fyddai unrhyw opsiwn arall ar gael o ran y ddarpariaeth.
7. Cododd nifer fach iawn o ymatebwyr bryderon ynghylch yr effaith y gallai marchnad sydd wedi'i monopoleiddio gan un corff dyfarnu ei chael ar ansawdd oherwydd diffyg cystadleuaeth ac anallu cyrff dyfarnu i rannu arloesedd ac arfer gorau. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr hefyd fod angen i gyrff dyfarnu fuddsoddi adnoddau sylweddol er mwyn ymgymryd â'r broses dendro a chodwyd pryderon ynghylch gallu cyrff dyfarnu llai o faint i wneud hyn.

Nac ydw

Nododd llai na chwarter yr ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig. Nododd nifer fawr o gyrff dyfarnu a chwmnïau cyswllt, tua hanner y darparwyr dysgu, lleiafrif o gyrff y sector a nifer fach iawn o gyflogwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig i gyfyngu ar rai cymwysterau o fewn y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Manteisiodd 25 o ymatebwyr ar y cyfle i nodi'r rhesymau dros eu barn, gan godi'r pryderon canlynol:

1. Amlinellodd lleiafrif o'r ymatebwyr y risgiau sy'n gysylltiedig ag un model cyflenwi gan gynnwys diffyg cymhelliant i arloesi oherwydd bod llai o gystadleuaeth, y dewis o ran darpariaeth yn y farchnad yn y dyfodol ac anallu cyrff dyfarnu i gynnal arbenigedd o fewn y sector, hunanfodlonrwydd ynghylch lefelau gwasanaeth, yr effaith ar ddysgwyr a'r farchnad os bydd yn rhaid i gorff dyfarnu dynnu'r cymhwyster a gynigir yn ôl yn ystod cyfnod y contract, gallu corff dyfarnu i barhau i gynnig cymwysterau mewn sector arall sy'n elwa ar groesgymorthdalu ar hyn o bryd a'r baich cynyddol ar ganolfannau a fydd yn gorfod gweithio gyda chorff dyfarnu newydd.
2. Unwaith eto, nododd ymatebwyr o'r sector Gwaith Chwarae nad oedd opsiwn 3, sef gosod cyfyngiad ar rai cymwysterau yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, yn briodol ar gyfer eu sector nhw. Hoffent weld Gwaith Chwarae yn cael ei gynnwys yn y cymhwyster, heb unrhyw gyfyngiadau arno. Codwyd pryderon na fyddai modd cwmpasu ystod y cynnwys sydd ei hangen i ddiwallu anghenion y gweithlu yn llawn fel rhan o gymhwyster ehangach.

3. Cododd nifer fach iawn o ymatebwyr bryderon ynghylch p'un a fyddai un cymhwyster yn gallu diwallu anghenion pob dysgwr, y diffyg dewis a fyddai ar gael i ganolfannau, yr angen i gydnabod cymwysterau cyfredol, yr adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg, perthnasedd y cymhwyster i anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru pe bai corff dyfarnu o Loegr yn ennill y contract a symudedd y cymhwyster y tu allan i Gymru.
4. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn y gallai opsiwn 2 weithredu'n fwy effeithiol yng Nghymru, gan osgoi rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chreu marchnad fonopoli.
5. Amlinellodd nifer fach iawn o ymatebwyr opsiwn amgen, sef bod sawl corff dyfarnu yn cydweithio i ddatblygu un fersiwn o bob cymhwyster newydd dan oruchwyliaeth Cymwysterau Cymru.

Effeithiau cadarnhaol y gall (neu y gallai) opsiwn 3 eu cael ar ymatebwyr neu eu sefydliad, dysgwyr, cyflogwyr, cleientiaid gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu randdeiliaid eraill.

Manteisiodd 79 o ymatebwyr ar y cyfle i nodi effeithiau cadarnhaol posibl yr opsiwn i gyfyngu ar gymwysterau. Crynhoir eu hymatebion isod:

1. Nododd lleiafrif o'r ymatebwyr y byddai'r opsiwn i gyfyngu yn:
    a. arwain at fwy o gysondeb a safoni ar draws y sector;
    b. darparu llwybrau dilyniant cliriach;
    c. lleihau dryswch i gyflogwyr a dysgwyr, a sicrhau bod pob rhanddeiliad yn deall ac yn cydnabod y cymhwyster.
2. Nododd nifer fach o ymatebwyr y byddai'r opsiwn i gyfyngu yn:
    a. Gwella gweithdrefnau sicrhau ansawdd a rheoleiddio'r cymhwyster;
    b. Sicrhau bod modd datblygu cymhwyster sy'n diwallu anghenion cyfredol dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru yn fwy effeithlon.
3. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr y byddai'r opsiwn i gyfyngu yn:
    a. Di-fuddiant;
    b. Sicrhau bod modd trosglwyddo sgiliau ar draws y sector;
    c. Cynyddu hyder defnyddwyr gwasanaeth a chyflogwyr yng ngallu'r ymgeisydd;
    ch. Sicrhau bod canolfan yn gallu rhwydweithio â'r corff dyfarnu yn fwy effeithiol;
    d. Sicrhau safonau darparu gwell;
    dd. Sicrhau bod ansawdd yr adnoddau dwyieithog a gynhyrchir yn well;
    e. Galluogi corff dyfarnu i ddatblygu llwyfan cynaliadwy i gefnogi'r sector.

Effeithiau negyddol y gall (neu y gallai) opsiwn 3 eu cael ar ymatebwyr neu eu sefydliad, dysgwyr, cyflogwyr, cleientiaid gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu randdeiliaid eraill.

Manteisiodd 75 o ymatebwyr ar y cyfle i nodi effeithiau negyddol posibl yr opsiwn i gyfyngu ar gymwysterau. Crynhoir eu hymatebion isod.

Sylwadau ynghylch cyrff dyfarnu:

Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu y gallai'r diffyg cystadleuaeth a all godi yn sgil y ffaith mai dim ond un corff dyfarnu sy'n cynnig yr holl gymwysterau o fewn y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol arwain at hunanfodlonrwydd ymhlith cyrff dyfarnu, dirywiad yn ansawdd y gwasanaethau cwsmeriaid a gynigir i ganolfannau, a llai o gyfleoedd i rannu arfer gorau a chydweithio i ddatblygu cymwysterau arloesol. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr eraill yn pryderu na fyddai cyrff dyfarnu, o bosibl, yn gallu cynnal eu harbenigedd a'u gwybodaeth o fewn y sector er mwyn gwneud cais yn y dyfodol ac na fyddai cyrff dyfarnu bach, o bosibl, yn gallu ymgeisio o gwbl. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu na fyddai cynllun wrth gefn pe bai'r corff dyfarnu yn methu â bodloni gofynion y cymhwyster hanner ffordd drwy'r cyfnod trwyddedu. Yn olaf, roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu ynghylch cysondeb cymwysterau ar draws y 'lotiau' pe baent yn cael eu dyfarnu i gyrff gwahanol.

Sylwadau ynghylch canolfannau:

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn pryderu ynghylch p'un a fyddai canolfannau yn gallu ymdopi â newid o'r maint a gynigir. Gallent wynebu costau uchel ar gyfer ailhyfforddi staff ac aseswyr, pwysau ar staff i ddatblygu cynlluniau gwersi newydd a phrinder o ran y sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno'r rhaglenni newydd. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr y gallai dull gweithredu graddol fod yn fwy priodol. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr y gallai'r newid hwn arwain at ddirywiad mewn safonau neu lai o gynnydd yn ystod y cyfnod pontio.

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn pryderu am y straen bosibl ar adnoddau y gallai canolfannau ei hwynebu pe baent yn gorfod gweithio gyda chorff dyfarnu newydd.

Sylwadau ynghylch anghenion dysgwyr:

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn pryderu na fyddai dysgwyr yn gallu dewis pa gwrs i'w astudio mwyach. Byddai hyn yn golygu bod llai o gyfleoedd i arbenigo a gallai darpar fyfyrwyr benderfynu peidio ag astudio yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol pe byddai'n rhaid iddynt gwblhau modiwlau mewn meysydd nad oes ganddynt fawr o ddiddordeb ynddynt.

Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr y byddai angen i'r cymhwyster ystyried arddulliau dysgu ymgeiswyr unigol ac roedd nifer fach iawn o ganolfannau addysg yn pryderu na fyddai'n bosibl iddynt gynnig cymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol mwyach pe bai gofynion ar gyfer agweddau fel lleoliadau gwaith, nad yw'n bosibl iddynt eu hwyluso. Mae angen sicrhau bod y cymwysterau'n addas ar gyfer pob myfyriwr, ni waeth beth fo'i allu na'i sgiliau.

Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu y gallai pobl sy'n gymwys ar hyn o bryd fod dan anfantais os oes ganddynt gymwysterau gwahanol, ac y gallai hyn arwain at ddiffyg hyder yn y sector. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr eraill yn pryderu y gallai fod angen iddynt ailastudio ar gyfer y cymhwyster newydd.

Sylwadau ynghylch symudedd:

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn pryderu y gallai'r opsiwn i gyfyngu ar gymwysterau arwain at lai o gyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen i AU neu weithio y tu allan i Gymru.

Sylwadau ynghylch Gwaith Chwarae:

Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu ynghylch y posibilrwydd y byddai llai o bobl yn penderfynu astudio'r cymwysterau tra bod y cymhwyster newydd yn cael ei sefydlu, pwy fyddai'n cyflwyno'r cymhwyster newydd, a gallu aseswyr i ymdopi â chymhwyster newydd. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu hefyd y gallai'r sector Gwaith Chwarae golli ei gymhwyster annibynnol, y buddsoddwyd yn sylweddol ynddo dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben. Nododd un ymatebydd fod rhywbeth tebyg wedi digwydd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ddiweddar sydd wedi arwain at sefyllfa lle nad yw hyfforddwyr ac aseswyr yn alwedigaethol gymwys.

Amlinellwch unrhyw sylwadau sydd gennych ynglŷn â'r rhestr o gymwysterau rydym yn awgrymu y dylid cyfyngu arnynt.

Manteisiodd 56 o ymatebwyr ar y cyfle i roi sylwadau ar y rhestr arfaethedig o gymwysterau a fyddai'n cael eu cyfyngu o dan opsiwn 3.

1. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r rhestr o gymwysterau, gan nodi bod ystod dda o gymwysterau ar draws y sector. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn falch bod cymwysterau Lefel 4 ac agwedd ar Waith Chwarae wedi'u cynnwys a nododd nifer fach iawn fod y dilyniant ar gyfer llwybrau academaidd a llwybrau dysgu seiliedig ar waith yn ymddangos yn gadarn.
2. Gofynnodd nifer fach iawn o ymatebwyr am eglurhad pellach ynghylch cynnwys y cymwysterau arfaethedig a'r llwybrau dilyniant, a byddent yn gwerthfawrogi pe bai modd ymgynghori â nhw ar y pwynt hwn yn ystod y cam datblygu.

3. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu bod y rhestr gyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr benderfynu a ydynt am ddilyn llwybr galwedigaethol neu academaidd ar gam cynnar. Nodwyd y gallai hynny atal rhai myfyrwyr rhag astudio neu ystyried astudio mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) yn y dyfodol. Nodwyd bod angen cysoni cynnwys cymwysterau academaidd a chymwysterau seiliedig ar waith er mwyn sicrhau bod modd i ddysgwyr symud ymlaen o un i'r llall.
4. Mynegodd nifer fach iawn o ymatebwyr bryderon ynghylch teitlau arfaethedig y cymwysterau, gan gynnwys y defnydd o'r term 'ymarferydd'.
5. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr y dylai'r cymhwyster lefel 5 arfaethedig ganolbwyntio'n fwy ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau rheoli.
6. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu y byddai cymhwyster penodol ar Ddatblygiad Plant yn cael ei golli neu fod diffyg ystyriaeth yn cael ei roi i lwybrau prentisiaeth yn yr ymgynghoriad.
7. Nododd un ymatebydd ei fod yn hanfodol bod y rhestr yn aros yn hyblyg er mwyn sicrhau y gall ymateb i newidiadau deddfwriaethol, megis y rhai sy'n gysylltiedig â rheoleiddio a chofrestru staff.

A hoffech wneud sylwadau o ran p'un a ddylid cynnwys Gwaith Chwarae yn y cymwysterau ar lefelau 2 a 3 a fyddai'n cael eu cyfyngu?

Nododd 60 o ymatebwyr eu bod am roi sylwadau ar gynnwys Gwaith Chwarae yn y rhestr o gymwysterau a fyddai'n cael eu cyfyngu. Nododd tua thraean o'r ymatebwyr hyn eu bod yn llwyr gefnogi'r awgrym i gynnwys Gwaith Chwarae. Nid oedd unrhyw un o gyrff y sector yn llwyr gefnogi'r awgrym.

Roedd tua thraean o'r rhai a ymatebodd i'r adran hon o'r ymgynghoriad yn cefnogi'r awgrym ond roedd ganddynt rai amheuon hefyd. Ymhlith yr amheuon a nodwyd roedd y canlynol:

1. Mae Gwaith Chwarae yn ddisgyblaeth benodol iawn a gaiff ei diystyru, ei gwanedu a'i chamddeall yn aml. Mae risg y bydd hyn yn digwydd os na chynigir cymhwyster annibynnol.
2. Mae'r cymwysterau Gwaith Chwarae pwrpasol a ddatblygwyd yn ddiweddar yn addas at y diben. Roedd pryderon, pe bai gwaith chwarae yn dod yn rhan o gymhwyster ehangach, na fyddai digon o amser i gyflwyno'r cynnwys gofynnol. Mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw gymhwyster newydd yn gyson â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, ac yn addas at ddibenion cofrestru neu reoleiddio.
3. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau yn yr adran hon yn cytuno y dylid cynnwys Gwaith Chwarae yn y modiwl Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant gan ei fod yn

agwedd sylfaenol ar waith llawer o bobl yn y sector, ond roeddent yn pryderu ei fod yn ymddangos mai dyma'r unig lwybr mynediad i mewn i'r proffesiwn ac nad oes unrhyw lwybr dilyniant clir ar gyfer ymgymryd ag astudiaethau pellach i'r sawl sydd am ddatblygu yn y maes Gwaith Chwarae. Byddai'n anodd iawn datblygu cymhwyster sy'n cyflwyno digon o gynnwys i'r sawl sydd am weithio yn y maes, a rhoi cefndir i'r rhai sy'n gweithio mewn meysydd cysylltiedig.

4. Pe bai Gwaith Chwarae yn cael ei gynnwys fel rhan o gymhwyster ehangach, gallai hynny fod yn rhwystr i ddysgwyr sydd ond â diddordeb mewn Gwaith Chwarae neu'r sawl nad oes ganddynt yr amser i gwblhau cymwysterau amser llawn.

Nid oedd tua thraean o'r rhai a ymatebodd i'r adran hon o'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig i gynnwys Gwaith Chwarae yn y rhestr o gymwysterau a fyddai'n cael eu cyfyngu, gan gynnwys nifer fawr o'r sector Gwaith Chwarae. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai cyfyngu ar gymwysterau Gwaith Chwarae yn golygu mai'r cymhwyster cyfyngedig fyddai'r unig gymhwyster a ariennir ac y byddai hynny'n cael effaith negyddol ar y cyfeiriad strategol cyfredol ar gyfer datblygu cymwysterau Gwaith Chwarae am nifer o resymau:

1. Yn hanesyddol, pan fo Gwaith Chwarae wedi'i gynnwys mewn cymwysterau eraill, mae wedi'i wthio i'r cyrion. Mae Gwaith Chwarae yn ddull penodol iawn o weithio gyda phlant a gallai camau diweddar i broffesiynoli a chodi proffil Gwaith Chwarae fod mewn perygl os caiff ei gynnwys mewn cymhwyster mwy cyffredinol a allai gael ei ddylanwadu'n ormodol gan sectorau blynyddoedd cynnar a Gofal Plant mwy o faint.
2. Caiff cymwysterau Gwaith Chwarae eu datblygu mewn ffordd wahanol iawn i gymwysterau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.
3. Mae gwahaniaethau mawr rhwng y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae. Mae'n hanfodol bod holl egwyddorion Gwaith Chwarae yn cael eu cynnwys ym mhob cwrs.
4. Yn ddiweddar, buddsoddwyd yn sylweddol yn y gwaith o ddatblygu cymwysterau Gwaith Chwarae sydd wedi helpu i ddatblygu unedau pwrpasol sy'n diwallu anghenion y gweithlu.
5. Mae adborth gan ddysgwyr, cyflogwyr, tiwtoriaid ac aseswyr yn dangos bod y cyrff dyfarnu sydd wrthi'n cyflwyno cymwysterau Gwaith Chwarae, ar wahân i'r cymhwyster pwrpasol newydd, yn ei chael hi'n anodd dangos eu bod yn cyflogi tiwtoriaid ac aseswyr Gwaith Chwarae sy'n alwedigaethol gymwys.

6. Gallai'r newidiadau diweddar yn Lloegr a Gogledd Iwerddon olygu mai'r cymhwyster blynyddoedd cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae cyfyngedig dan ystyriaeth fyddai'r unig lwybr yn y DU.

A ydych yn cefnogi'r awgrym y dylid cynnwys Gweithiwr Cymorth Therapi Galwedigaethol yn y cymwysterau ar Lefel 3 a fyddai'n cael eu cyfyngu?

Nododd 31 o ymatebwyr eu bod am roi sylwadau ar gynnwys y Llwybr Gweithiwr Cymorth Therapi Galwedigaethol yn y cymwysterau cyfyngedig. Roedd tua hanner yr ymatebwyr a roddodd sylwadau ar yr adran hon o'r ymgynghoriad yn llwyr gefnogi'r awgrym.

Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r awgrym ond roedd ganddynt rai amheuon hefyd. Ar y cyfan, ymholiadau ac ansicrwydd a gafwyd gan yr ymatebwyr hyn yn hytrach nag amheuon pendant, gan gynnwys yr angen i egluro'r galw am y cymhwyster hwn a'r angen i'w nodi fel llwybr arbenigol uwchlaw llwybrau arbenigol eraill.

Nid oedd nifer fach o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar yr adran hon o'r ymgynghoriad yn cefnogi'r awgrym i gynnwys y llwybr Gweithiwr Cymorth Therapi Galwedigaethol yn y cymwysterau cyfyngedig. Nododd tua hanner yr ymatebwyr hyn nad oeddent yn cefnogi'r awgrym hwn gan nad oeddent o blaid yr opsiwn i gyfyngu ar gymwysterau yn gyffredinol. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr eraill yn cwestiynu'r angen i newid cymhwyster sy'n addas at y diben ar hyn o bryd.

A ydych yn cefnogi'r awgrym y dylid cynnwys Lefel 4: Uwch Ymarferydd Gofal Cymdeithasol gyda llwybrau arbenigol posibl a Lefel 4: Uwch Ymarferydd Gofal Plant, Dysgu, Datblygu a Gwaith Chwarae gyda photensial ar gyfer llwybrau arbenigol o fewn cymwysterau a fyddai'n gyfyngedig?

Nododd 49 o ymatebwyr eu bod am roi sylwadau ar yr adran hon o'r ymgynghoriad. Roedd tua hanner yr ymatebwyr hyn yn llwyr gefnogi'r awgrym. Aeth un o'r ymatebwyr hyn ymlaen i nodi bod angen y cymwysterau lefel 4 hyn er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau ag anghenion cymhleth yn cael gwasanaeth arbenigol a bod gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu bodloni.

Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r awgrym ond roedd ganddynt rai amheuon hefyd. Mynegodd yr ymatebwyr hyn amrywiaeth o amheuon, gan gynnwys:

1. Pwysleisiodd yr ymatebwyr o'r sector Gwaith Chwarae y gallai Gwaith Chwarae gael ei golli fel disgyblaeth benodol pe bai'n cael ei gynnwys gyda Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar, ac na ddylai gael ei gynnwys yn y rhestr o gymwysterau cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd nifer fach iawn ohonynt yn cefnogi ychwanegu cymhwyster lefel 4 er mwyn cefnogi dilyniant dysgwyr.

2. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu y gallai cyflwyno cymhwyster lefel 4 mewn Gofal Plant achosi dryswch ar ôl iddo gael ei dynnu'n ôl yn ddiweddar.
3. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr fod angen sicrhau bod unrhyw gymwysterau newydd yn gyson â rheolau cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru ac y dylai'r cymwysterau hynny baratoi dysgwyr ar gyfer cymwysterau lefel 5 er mwyn cau'r bwlch cyfredol.
4. Holodd nifer fach iawn o ymatebwyr ynghylch y galw am y cymhwyster, sut y câi ei ariannu a pha mor symudol fyddai'r cymhwyster y tu allan i Gymru.
5. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu ynghylch y posibilrwydd o golli cymwysterau cyfredol, sydd yn werthfawr yn eu barn nhw.
6. Roedd un ymatebydd yn ymwybodol y bydd angen gwybodaeth arbenigol ar gyfer unrhyw lwybr arbenigol, a all achosi problemau penodol wrth gomisiynu neu ddatblygu.

Nid oedd nifer fach o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar gynnwys y ddau gymhwyster lefel 4 hyn yn cefnogi'r awgrym, a chodwyd y pryderon canlynol:

1. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu am y derminoleg a ddefnyddiwyd yn nheitlau'r cyrsiau arfaethedig.
2. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu ynghylch pa mor ymarferol fyddai i gyrff dyfarnu wneud cais am y cymhwyster hwn a'i gyflwyno o gofio'r niferoedd isel posibl o ddysgwyr.
3. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr eu pryderon unwaith eto ynghylch y ffaith y byddai llai o ddewis i ddysgwyr, llai o symudedd ar draws y DU, y risg o hunanfodlonrwydd ymhlith cyrff dyfarnu a'r risg y byddai un pwynt o fethiant.

Beth yw eich barn, os oes gennych un, ar y 'lotiau' o gymwysterau rydym yn awgrymu y dylid eu cynnwys yn y broses gomisiynu?

Rhoddodd 47 o ymatebwyr sylwadau ar y 'lotiau' o gymwysterau a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Nododd lleiafrif o'r ymatebwyr fod y rhaniad i mewn i 'lotiau' yn ymddangos yn bragmatig ac y bydd yn cefnogi datblygiad y dysgwr, gyda llwybrau arbenigol wedi'u seilio ar graidd cyffredin, cadarn.

Cododd ymatebwyr yr amheuon canlynol ynglŷn â'r 'lotiau' arfaethedig o gymwysterau.

Amheuon

1. Dilyniant ar draws Lefelau - nododd nifer fach iawn o ymatebwyr fod dyrannu 'lotiau' yn ailadrodd llawer o'r problemau a welir ar hyn o bryd o ran dilyniant. Bydd cyrff

dyfarnu gwahanol, a dulliau asesu gwahanol o bosibl, ar gyfer pob 'lot' yn her i ddysgwyr a thiwtoriaid.

2. Llwybrau Arbenigol - roedd nifer fach iawn o ymatebwyr o blaid cyflwyno modiwlau craidd ac yna fodiwlau arbenigol, yn hytrach nag ailadrodd y dyblygu haenedig a welir ar hyn o bryd. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr y dylid ystyried llwybrau arbenigol ar gyfer meysydd fel Iechyd Meddwl.
3. Cydweithio rhwng cyrff dyfarnu - nododd nifer fach iawn o ymatebwyr, pe bai lotiau gwahanol yn cael eu dyfarnu i gyrff dyfarnu gwahanol, y byddai'n hanfodol eu bod yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod cynnwys, dulliau cyflwyno a methodolegau asesu yn gyson.
4. Awgrymiadau amgen ar gyfer lotiau
    - Awgrymodd nifer fach iawn o ymatebwyr y dylid grwpio cymwysterau'n seiliedig ar wybodaeth mewn un lot a chymwysterau ymarferwyr mewn lot wahanol ar lefelau 2 a 3. Dylai'r meini prawf cymeradwyo, cynnwys y pynciau a'r broses gymeradwyo sicrhau bod cryn dipyn o gysondeb rhyngddynt.
    - Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr fod lot 2 yn eithaf mawr ac awgrymwyd y dylid cael pedair 'lot' gyda lot 2 yn cael ei rhannu naill ai rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant neu yn ôl lefel y cymhwyster.
    - Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr fod datblygiad plant a'r dyfarniad Gweithio gyda Rhieni wedi'u diystyru.
    - Awgrymodd nifer fach iawn o ymatebwyr y dylai lot 1 fod yn gymhwyster lefel 1 ac y dylai fod yn ofynnol i ddysgwyr gwblhau cyrsiau'n seiliedig ar wybodaeth yn 'lotiau' 2 a 3 cyn iddynt gael eu derbyn ar gyrsiau ymarferol.
5. Arall
    - Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu y gallai methiant corff dyfarnu i ennill un lot effeithio ar ei allu neu ei barodrwydd i gyflwyno lot y mae'n llwyddo i'w hennill. Bydd y rhan fwyaf o gyrff dyfarnu yn awyddus i gyflwyno pob lot er mwyn sicrhau dilyniant a hyfywedd ariannol.
    - Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu ynghylch y gost y gallai canolfannau fynd iddi os ydynt yn cyflwyno cymwysterau ym mhob 'lot' ac yn gorfod gweithio gyda sawl corff dyfarnu gwahanol.

Yn eich barn chi, a fyddai'r cyfnod cyfyngu a awgrymir, sef pum mlynedd, yn rhesymol i gyrff dyfarnu adennill costau datblygu?

O'r 83 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar yr adran hon, nododd lleiafrif ohonynt fod pum mlynedd yn rhesymol, nododd nifer fach ohonynt ei fod yn rhy fyr a nododd nifer fach iawn ei fod yn rhy hir. Nododd y gweddill nad oeddent yn gwybod. Nododd nifer fach iawn nad yw'n

bosibl rhagweld faint o amser y bydd ei angen ar gyrff dyfarnu i adennill costau datblygu hyd nes y caiff y gofynion eu hamlinellu'n fanylach.

Rhesymau pam bod pum mlynedd yn rhy fyr

Nododd 11 ymatebydd pam bod pum mlynedd yn rhy fyr yn eu barn nhw.

1. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu ynghylch y newidiadau cyson i gymwysterau a'r amser y mae'n ei gymryd i gyrsiau newydd ymsefydlu a dangos eu heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, gwnaethant nodi y dylai adolygiadau interim gael eu cynnal o leiaf bob pum mlynedd. Nododd un ymatebydd ei fod yn cymryd o leiaf ddwy flynedd i sefydlu cymhwyster yn y system a'i fod yn cymryd mwy o amser i werthuso p'un a yw'n effeithiol. Mae adolygiadau diweddar o'r sector bob pedair i bum mlynedd wedi bod yn gostus iawn ac wedi ansefydlogi'r sector.
2. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr y gallai newidiadau rheolaidd effeithio ar gymhwysedd aseswyr a thanseilio gwerth y dyfarniadau.
3. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr o'r farn y byddai cost datblygu cyfres mor amrywiol o gymwysterau yn rhy uchel i'w hadennill o fewn pum mlynedd.
4. Er eu bod yn teimlo bod pum mlynedd yn rhy fyr, awgrymodd nifer fach iawn o ymatebwyr y dylid cynnal adolygiad bob pum mlynedd o leiaf.

Rhesymau pam bod pum mlynedd yn rhy hir

Nododd pum ymatebydd pam bod pum mlynedd yn rhy hir yn eu barn nhw.

1. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr y gallai cyrff dyfarnu ei chael hi'n anodd cynnal eu harbenigedd a'u gwybodaeth o fewn y sector am bum mlynedd er mwyn gallu tendro am gontractau yn ddiweddarach.
2. Roedd un ymatebydd o'r farn y gallai cyrff dyfarnu adennill costau yn gyflym iawn heb unrhyw gystadleuaeth i gyfyngu ar brisiau. Os yw tymor contract yn rhy hir, mae'n bosibl y collir mwy o gymhwysedd galwedigaethol.

Sylwadau ar ddadansoddiad Cymwysterau Cymru o'r tri opsiwn gwahanol.

Rhoddodd 34 o ymatebwyr sylwadau yn yr adran hon. Nododd lleiafrif o'r ymatebwyr hyn fod y dadansoddiad yn gynhwysfawr yn eu barn nhw a'i fod yn ganllaw defnyddiol ar gyfer ystyried cwestiynau'r ymgynghoriad.

Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu ynghylch y ffaith ei bod yn ymddangos fel pe bai'r ymgynghoriad yn ceisio canfod a oedd opsiwn 3 yn cael ei gefnogi, yn hytrach na chasglu gwybodaeth am yr opsiwn a ffefrir. Roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y daethpwyd i'r casgliad mai opsiwn 3 oedd yr opsiwn a ffefrir ac ystod y gwaith dadansoddi a gwblhawyd er mwyn gwrthod opsiynau 1 a 2. Yn ôl nifer fach iawn o ymatebwyr, byddai wedi

bod yn ddefnyddiol pe bai opsiynau 1 a 2 wedi cael eu harchwilio yr un mor fanwl ag opsiwn 3. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn ansicr hefyd ynghylch sut y byddai opsiwn 3 yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adolygiad, gan gynnwys anghysondebau o ran yr asesiadau a gynhelir gan ddarparwyr hyfforddiant. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr o'r farn bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i symudedd cymwysterau yn y ddogfen ymgynghori.

Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno ag anfanteision opsiwn 2 a nodwyd yn adrannau 28 a 29 o'r ddogfen ymgynghori. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr o'r farn y gallai anfanteision posibl opsiwn 2 gael eu goresgyn pe bai cyrff dyfarnu yn cydweithio i ddatblygu a chynnig y cymwysterau, fel y gwnaethant i gyflwyno Sgiliau Hanfodol. Byddai hyn yn eu galluogi hefyd i ddefnyddio'r arbenigedd sydd ganddynt eisoes.

Awgrymodd nifer fach iawn o ymatebwyr nad oedd anfanteision opsiwn 3 wedi'u hystyried yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys diogelu buddiannau dysgwyr pe bai problem fawr yn codi gyda'r unig gorff dyfarnu yn ystod y cyfnod cyfyngu a'r gwastraff adnoddau posibl fyddai'n gysylltiedig ag ailgynllunio cymwysterau newydd mewn pynciau lle nad oes ei angen o bosibl.

Cyflwynwyd y pryderon hyn i dîm y prosiect mewn manylder a chawsant eu nodi wrth ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad.

Sylwadau ar y seiliau dros osod cyfyngiad

Rhoddodd 32 o ymatebwyr sylwadau ar yr adran hon o'r ymgynghoriad. Mae'r holl sylwadau a wnaed yn ailadrodd yr hyn a amlinellwyd yn flaenorol drwy gydol yr adroddiad ond fe'u hystyriwyd yn fanwl gan dîm y prosiect wrth drafod canfyddiadau'r ymgynghoriad.

Sylwadau ar ystyriaethau ar gyfer dethol corff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd

Rhoddodd 36 o ymatebwyr sylwadau ar yr adran hon o'r ymgynghoriad.

Nododd nifer fach o'r ymatebwyr hyn fod angen mwy o fanylion arnynt er mwyn iddynt allu rhoi sylwadau, a nododd nifer fach iawn ohonynt bwysigrwydd sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd cadarn ar waith o fewn y broses.

Rhoddwyd y sylwadau canlynol gan nifer fach iawn o ymatebwyr:

1. Dylid ystyried cynnwys rhanddeiliaid yn y broses ddethol;
2. Dylid ystyried mabwysiadu trefniadau consortiwm;
3. Dylid ystyried cynnwys y canlynol yn y meini prawf:
    a. Gofyniad y dylai cyrff dyfarnu fod yn gallu i) datblygu a chyflwyno cymwysterau a deunyddiau ategol o ansawdd uchel yn Gymraeg, ii) sicrhau

bod hyfforddwyr, aseswyr a gwirwyr yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, iii) rhoi cymorth gweinyddol drwy gyfrwng y Gymraeg ac iv) meddu ar wefan iaith Gymraeg.

b. Ymrwymiad i gymryd camau priodol pan fydd achosion o ddiffyg cydymffurfio.
c. Ymrwymiad i hwyluso cydweithrediad ac ymgysylltiad rhwng canolfannau a rhanddeiliaid.

4. Croesewid eglurhad ynghylch y defnydd o aseswyr Cymraeg eu hiaith, ystyr 'hanes o lwyddiant' ac '[atebion] asesu arloesol, cyfannol, effeithiol a hyblyg', yr hyn a ystyrir yn adnoddau arloesol, sut y caiff capasiti a gallu cyrff dyfarnu eu hasesu, yr amserlenni ar gyfer datblygu'r cymwysterau a'r deunyddiau ategol a faint o gydweithio y byddai angen ei wneud gyda chyrff dyfarnu eraill sy'n cynnig 'lotiau' eraill.
5. Gofynnwyd am sicrwydd y byddai pwyslais yn cael ei roi ar ansawdd wrth fynd ati i werthuso costeffeithiolrwydd y ceisiadau.

A oes unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn?

Rhoddodd 48 o ymatebwyr sylwadau ar yr adran hon o'r ymgynghoriad. Roedd llawer o'r ymatebion hyn yn crynhoi'r hyn a amlinellwyd yn flaenorol yn yr adroddiad ond codwyd y pwyntiau ychwanegol canlynol hefyd:

1. Nododd un ymatebydd nad oedd y cwestiynau yn yr arolwg bob amser yn glir ac roedd ymatebydd arall o'r farn bod yr adroddiad yn cynnwys nifer o wallau.
2. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr y dylai'r ymgynghoriad fod wedi bod yn fwy agored i awgrymiadau, gydag un ymatebydd yn datgan ei fod yn teimlo fel pe bai'r penderfyniad i gyfyngu ar y farchnad wedi'i gymryd eisoes. Nododd ymatebydd arall fod angen ystyried a thrafod y dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn nodi'n gliriach sut a pham mai'r opsiynau a gynigir yw'r rhai mwyaf priodol.
3. Gofynnodd nifer fach iawn o ymatebwyr am rôl y Gymraeg a'r broses o gynhyrchu adnoddau dwyieithog, gan gynnwys y galw, ffrydiau ariannu a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r adnoddau.
4. Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr yn pryderu ynghylch symudedd y cymhwyster newydd.
5. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr y byddai'r broses o hyfforddi aseswyr a thiwtoriaid yn allweddol o ran sicrhau newid effeithiol.
6. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr y dylid ystyried p'un a ellir trosi cymwysterau cyfredol.
7. Gofynnodd nifer fach iawn o ymatebwyr am eglurhad ynghylch cynnwys y cymwysterau arfaethedig, gan gynnwys sut y caiff elfennau sgiliau cymwysterau

academaidd eu cysoni â chymwysterau'n seiliedig ar sgiliau, a sut y caiff gofynion deddfwriaethol, fel y rhai yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, eu cwmpasu.

8. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr nad yw cymwysterau yn y cylch gwaith iechyd wedi cael eu hystyried i'r un graddau â'r rheini yn y cylch gwaith gofal. Roedd ymatebydd arall yn pryderu ynghylch y rôl fach a chwaraewyd gan ddarparwyr gofal yn yr adolygiad, yn ôl pob golwg.
9. Cododd un ymatebydd bryder ynghylch y ddarpariaeth hyd at 2019 gan fod risg y bydd cyrff dyfarnu yn tynnu'r cymhwyster cyfredol yn ôl cyn i'r cyfyngiad ddod i rym.

Atodiad 1 - Ymatebion i'r ymgynghoriad ar ran sefydliadau

Agored Cymru

Awdurdodau lleol Blaenau Gwent a Chaerffili

BIIAB

Canolfan Asesu Gofal Cymdeithasol Dinas Caerdydd

Canolfan Datblygu Proffesiynol Castell-nedd Port Talbot

Cartref Preswyl Oaklands

CBAC

City and Guilds

Clybiau Plant Cymru

Coleg Cymunedol YMCA WEA Cymru

Coleg Gwent

Coleg y Cymoedd

Colegau Cymru

Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru)

Cyngor Gofal Cymru

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Sir Fynwy

Cymdeithas Chwarae Llandeilo Ferwallt

Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru

Cymdeithas Gofal Cartref y DU

Chwarae Cymru

Deietegwyr Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru

Elliots Hill

Estyn

Grŵp Llandrillo Menai

Gwasanaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf

Gwasanaethau Cymdeithasol Dinas a Sir Abertawe

Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu

Fforwm Gofal Cymru

Fforwm Polisi Chwarae Plant y DU

Iechyd Cyhoeddus Cymru, Is-adran Sgrinio

Mudiad Meithrin

NCFE

NOCN

PACEY Cymru

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Gwasanaethau Addysg a Datblygu'r Gweithlu

Pearson

PlayBoard Northern Ireland

Prifysgol De Cymru

RAY Ceredigion

Rhwydwaith Chwarae Brycheiniog

SFJ Awards

Strategaeth Rhianta Sir y Fflint

The Playwork Foundation

Ysgol Ardudwy

Ysgol Gyfun Gŵyr

Ysgol Gyfun Penyrheol